Oedfa Bore Sul, 18fed Rhagfyr 2011

Drama'r Geni.

Drama'r Geni - plethiad o ddarnau o Efengylau Mathew a Luc. Ceir pedwar darn sy'n gyffredin i'r ddwy Efengyl: Mair yn feichiog o'r Ysbryd Glân; priodi Joseff; angel yn rhoi'r enw 'Iesu' i'r babn; a Geni Iesu ym Methlehem. Daw'r preseb a'r bugeiliaid o Efengyl Luc, y doethion o Efengyl Mathew. Yn Efengyl Luc ymddengys yr angel i Mair; yn Efengyl Mathew, mae'r angel yn ymddangos i Joseff! Er y dryswch, mae gwirionedd hanes Geni Iesu, holl rym Drama'r Nadolig, yn gorwedd nid ymhlith y ffeithiau, ond yn y galon. Yno mae'r gyfrinach, yno wrth wraidd ein bod. Un waith y flwyddyn y cyflwynir Drama'r Geni yn ein heglwysi. Llwyfannir y ddrama yn gyson gennym oedolion - nyni yw'r cymeriadau, a'n bywyd beunyddiol yw'r llwyfan.

"*Yn yr un ardal yr oedd bugeiliaid allan yn y wlad yn gwarchod eu praidd liw nos*" (Luc 2:8): pobl ddigon garw oedd y bugeiliaid, ond o blith y bugeiliaid y daeth y Brenin Dafydd! Cân y Salmydd a sôn y Proffwydi mai Bugail yw Duw. Disgrifia Iesu ei hun fel Bugail Da. Mynnwn amser dros yr Ŵyl i chwilio am y bugail ynom. Cafodd bob un ohonom braidd i ofalu amdanynt. Ydy'r bugail ynom yn cyflawni ei waith? Pwy yw'r defaid a ymddiriedwyd i'n gofal? Byddwn wyliadwrus, gan fod cymaint o bethau yn tynnu'n sylw o gynnal a chadw praidd ein gofal.

"*Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth sêr-ddewiniaid o'r dwyrain … "Ble mae'r hwn a anwyd i fod yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli*" (Mathew 2:1-2): cymysgedd o bethau digon cyffredin ydym, atomau a moleciwlau a ddaeth ynghyd ar hap a damwain. Gellid credu'n hawdd ein bod yn byw ar drugaredd grymoedd dall a didostur. Ond ynom mae yna ddoethineb sydd yn gweld, deall a gwybod yn amgenach, a hynny ar sail tystiolaeth bod mwy i'n byw a'n bywyd na hap a damwain. Gwyddom fod ystyr a phwrpas i'n bodolaeth. Gwyddai'r doethion bod y bydysawd yn byrlymu o ystyr a phwrpas. Mentrodd y tri ar daith anturus, bu iddynt deithio yn bell gan groesi llawer ffin. Nid teithio i Fethlehem i droi'n Gristnogion a wnaethant. Dod, yn hytrach, a wnaethant i blygu glin wrth y Sanctaidd. 'Roeddent yn barod i chwilio am y Sanctaidd lle bynnag a sut bynnag 'roedd am amlygu ei hun. Dyma oedd gwir ddoethineb. Eleni, chwiliwn am y doeth, mynnwn gyfle i deithio gyda'r hyn ynom sy'n dilyn Seren y Sanctaidd.

"*A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef*" (Mathew 2:3): arswyda'r Herod ynom rhag y Sanctaidd. I'r hen Herod, ac i bob Herod cyfoes, diogelwch a statws sy'n bwysig. I Herod, dod i gystadlu am statws ac i fygwth ei ddiogelwch a wnaeth yr Un Bach. A oes Herod ynom? Fe fydd yn ein hatgoffa'n gyson cymaint sydd i'w golli wrth ildio ein hunan i Dduw, ac wrth roi o'n hamser a'n hegni i'r eglwys. Ni fydd Herod byth yn nodi cymaint sydd i'w ennill! Ffeindiwn Herod eleni a mynnwn air ag ef i'w dawelu. Cred hwn mai ef sy'n eistedd ar orsedd ein bywyd. Y Nadolig hwn, dangoswn iddo fod '*meistr ar Fistar Mostyn*'.

"*Dywedodd Mair, "Dyma lawforwyn yr Arglwydd; bydded i mi yn ôl dy air di*" (Luc 1:38): mae pawb ohonom yn fam i Iesu! Ildiodd Mair i Ewyllys Duw. Pe bawn ninnau hefyd yn ildio, daw creadigrwydd anhygoel Duw i lifo trwom. Down yn gyfryngau i fwriad Duw. 'Roedd ofn ar Mair fel sydd arnom ninnau ofn i ildio ein hunain i Ewyllys Duw. Mae ofn ar Eglwys Minny Street i ildio'n hunain i Ewyllys Duw, ac i fod yr hyn y gallai fod. Mae'r ofn yn naturiol, ond mae angen ei oresgyn. Mynnwn egwyl yng nghwmni Mair i ddysgu cyfrinach ei hildio dewr.

"*Pan oedd Mair ei fam wedi dyweddïo i Joseff … fe gafwyd ei bod hi'n feichiog o'r Ysbryd Glân … dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud "Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti … a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oedd wrth eu pechodau*" (Mathew 1:20-22): hawlia Drama'r Geni yn drwm gan Joseff! Gofynnir iddo osod urddas, hunan barch a synnwyr cyffredin o'r neilltu a bod yn ŵr i Mair, ac yn dad i Iesu. Gofyn mawr! Llwyddodd Joseff! Tra bod Herod am reoli pawb a phopeth, costied a gyst, gollwng rheolaeth a wna Joseff, doed a ddelo. Cynnig diogelwch o fath mae Herod, cynnig anturiaeth go iawn a wna Joseff! Mynnwn amser i ddod i adnabod Joseff, gan hwn mae cyfrinach byw bywyd yn iawn a llawn.

***"... ganwyd i chi ... Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd ... "* (Luc 2:11):** mae pawb ohonom yn blentyn i Dduw! Duw yn y byd yw pawb ohonom. Yr hyn a wêl pobl o Dduw yw'r hyn o Dduw a welant ynom ni a'n tebyg. I'r cylch o bobl sy'n troi o'n cwmpas, yr ydym bob un yn rhodd gan Dduw – peidiwn ag anghofio hynny.

I bob Drama Nadolig ceir Cyfarwyddwr. I'r ddrama a lwyfannir yn ein byw a'n bod, mae yna hefyd gyfarwyddwr. Un da yw, Cariad yw! Gwyddom cymaint o angen ei gyfarwyddyd sydd arnom. Cyfnod i gydnabod hynny yw'r Nadolig. Mae holl gymeriadau Drama Fawr y Geni yn aros amdanom y Nadolig hwn, ac o roi ychydig o'n hamser iddynt, fe dry'r ŵyl wirion hon yn Ŵyl o Lawenydd Mawr - yn Barti Sanctaidd. Ac fel ym Mharti Plant yr Ysgol Sul cofiwn fod yna Ymwelydd Arbennig Iawn yn prysur agosáu!

Oedfa Nos Sul, 18fed Rhagfyr 2011

O'r Ffosydd.

"Left like a shadow on the step ...
Shipwrecked at the stable door."
(Bruce Cockburn (*gan.* 1945) - *Shipwrecked at the Stable Door* o'r albwm *Big Circumstance* (1988))

Teimlad nifer fawr ohonom ar Ddydd Nadolig? Gwyddom am wiriondeb yr Ŵyl, ac mae pawb ohonom yn sylweddoli ein bod yn cyfrannu i'r, ac o'r, rhialtwch. Ceisiwn ein gorau i ddarganfod ffordd i ddathlu'r Ŵyl, heb deimlo'n '*shipwrecked at the stable door'* Fore Nadolig.

Lleolir y ffilm *Joyeux Noël* (*Cyfarwyddwr*: Christian Carion; Sony Pictures Classics 2005) yn Ffosydd Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r Almaenwyr a'r Cynghreiriaid wrthi yn prysur ladd ei gilydd. Ar Noswyl Nadolig clywyd llais tenor Almaenaidd yn canu o'r ffosydd '*Stille Nacht, heil'ge Nacht'* (*geiriau* - Joseph Mohr (1792 – 1848); *cerddoriaeth* - Frank Xaver Gruber (1787 – 1863)). O glywed yr alaw gyfarwydd, dechreuodd pibyddion Albanaidd gyfeilio i'r llais. Cafwyd hyder o'r cyfuniad, a chan fentro'i fywyd, cerddodd y tenor allan o'r ffos i ganol llanast gwaedlyd *No Man's Land*. Cododd un neu ddau o'r pibyddion o'r ffôs hefyd, ac ymhen ychydig amser, 'roedd trwch o filwyr o'r ddwy ochr wedi esgyn o'r ffosydd, nid i ymladd a lladd ond i gwrdd â'i gilydd, i rannu smôc, chwisgi a brandi, ac i ddangos lluniau o wragedd, cariadon a phlant. Yng nghanol y cyfan, gweinyddwyd Offeren. ***Neges y ffilm:*** mae dyhead cynhenid am heddwch yn ddyfnach na phob casineb a gynhyrchir gan bobl. Mae'r hyn sydd yn uno pobl - cariad at fywyd, teulu a ffrindiau - yn gryfach ac ehangach na phob peth sydd yn ein tynnu, neu yn ein gwthio ar wahân.

Â'r ffilm ymlaen o Noswyl Nadolig i Fore Nadolig. Cerddodd Capten Almaenig draw at filwyr y gelyn a'u rhybuddio bod ei gatrawd, ymhen 10 munud, yn mynd i ddechrau bomio safleoedd y Cynghreiriaid. Awgrymodd mai gwell byddai i filwyr y Cynghreiriaid ddod draw i'r ffosydd Almaenig am y tro. Dyna ddigwyddodd! Maes o law, aeth Capten y Cynghreiriaid at yr Almaenwyr, a datgan eu bod hwythau, ymhen 10 munud yn mynd i wrth-ymosod. Gyda'i gilydd, cerddodd y milwyr Almaenig i'r ffos Brydeinig, a bu'r Cynghreiriaid yn brysur yn bomio ffosydd gwag. Am un noson a'r bore trannoeth, bu'r milwyr hynny yn byw ystyr yr Ŵyl. Profwyd ystyr, gwerth a gwirionedd proffwydoliaeth Eseia: "*Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr; y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew a gafodd lewyrch golau...pob esgid ar droed rhyfelwr mewn sgarmes, a phob dilledyn wedi ei drybaeddu mewn gwaed, fe'u llosgir fel tanwydd***"** (Eseia 9: 2, 5) i gynnau, a chynnal fflam o frawdoliaeth a chymod. Pan glywodd Cadfridogion y ddwy ochr am yr '*Argyfwng Heddwch*' hwn, anfonwyd milwyr ychwanegol, ffres i'r ffosydd. Disgyblwyd y Capteiniaid a cheryddwyd yr Offeiriad gan yr Esgob. Hanfod yr '*Argyfwng Heddwch*' oedd bod milwyr y ddwy ochr wedi dechrau gweld ei gilydd fel pobl. Gan ymwrthod â phob cerydd, mynnodd yr Offeiriad mae'r Offeren honno oedd yr unig wir Offeren iddo weinyddu erioed. Cafodd y Cadfridogion fraw gan iddynt weld mai heddwch sydd naturiol, ac mai annaturiol yw rhyfela.

Pan ymddangosodd yr angylion i'r Bugeiliaid y Noswyl Nadolig cyntaf honno, clywsant air o heddwch a seiniau cymod: "*Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith pobl sydd wrth ei fodd"* (Luc 2:14). Clywsant Newyddion Da o Lawenydd Mawr! Ofn yw anhawster oesol pobl; yn ein hofn, ymosodwn ar ein gilydd. Er na wyddom am ymladd Ffosydd Ffrainc, gŵyr pawb ohonom beth yw bod mewn ffos yn ymladd â rhyw elyn neu'i gilydd. Down at yr ystabl eleni, fel pob blwyddyn, gyda'n clwyfau a'n cleisiau, gyda'r tensiynau, y trafferthion a'r helyntion sydd rhyngom ag eraill. Rhyfedd sut mae hen glwyfau yn cosi ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Ond, dyfnach yw'r dyhead am heddwch na'r holl chwerwder; ehangach na'r cwerylon i gyd. Mae Crist yn ein calon, ac wrth wraidd ein bod mae cariad Duw. Un peth, ac un peth yn unig sydd ofynnol i fyw yn llawn a llawen - caniatáu i Dduw gael ei eni ynom. Caniatáu i Dduw godi i'r amlwg ynom, ac yn ein hymwneud â'n gilydd. Mynnwn y Nadolig hwn bod yr angylion yn canu '*Tawel Nos*' (*cyf.* T H Parry-Williams (1887-1975)) gyda ni; yn ein cynnal a'n hannog i adael ein ffosydd, i gamu allan i'r *No Man's Land* gan estyn llaw i elynion hen a newydd.

Awn fel, ac i blith, pobl sydd yn hen gyfarwydd â "*rhodio mewn tywyllwch",* gan sylweddoli bod gennym *"oleuni mawr"* a "*llewyrch golau"*. Dechrau Breuddwyd y Proffwyd Eseia am heddwch diddiwedd gyda ni a'n parodrwydd i "*chwilio ffordd trwy'r drain at ochr hen elyn"* (Waldo Williams (1904-1971); o *Pa Beth yw Dyn?* Dail Pren, Gwasg Gomer 1957)

Awn i baratoi am y geni - Geni Iesu ynom. Dyna gyfrinach peidio cyrraedd y Nadolig "*shipwrecked at the stable door"* - deall a derbyn mai ni sydd i eni Crist i'r byd. Genir grym heddwch ynom, ac o'n herwydd.